Creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
Creating communities to be proud of

# Ymgynghorydd Cofrestr Tai

## Manylion y swydd

**Yn atebol i'r:** Rheolwr Homefinder

**Yn adrodd yn uniongyrchol:** Dim.

**Tîm:** Datrysiadau Tai Conwy

**Lleoliad:** Morfa Gele/Bae Colwyn ar sail rota

**Manylion cyflog:** Graddfa 4

## Pwrpas

Bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr holl gwsmeriaid sy'n chwilio am gyngor a chefnogaeth ar ddewisiadau tai a darparu gwasanaethau dewisiadau tai o ansawdd uchel i denantiaid, ymgeiswyr ac unrhyw un arall sy'n cysylltu â gwasanaeth Datrysiadau Tai Conwy.
Asesu ceisiadau i ganfod cymhwysedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau presennol a chydgysylltu gydag adrannau/asiantaethau eraill i asesu cymhwysedd.

## Prif Gyfrifoldebau

Bod yn gynrychiolydd rheng flaen ar gyfer y gymdeithas a gwasanaeth Datrysiadau Tai Conwy gan ymateb i anghenion tai neu geisiadau i symud, ymholiadau neu gwynion, a chynnig amrywiaeth o gyngor amserol ar ddewisiadau tai penodol i ymgeiswyr.

Bydd ymholiadau yn digwydd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn bennaf, ond mae'n bosibl y bydd angen ymweld â phobl yn eu cartrefi o dro i dro.

Cynnig amrywiaeth eang o gyngor ar ddewisiadau tai i gwsmeriaid; gan gyfeirio cwsmeriaid at wasanaethau eraill.

Bod yn gyfrifol am weinyddu ceisiadau a ffeiliau ymgeiswyr a chynorthwyo â'r broses o gyfweld ag ymgeiswyr, asesu ceisiadau i gyrraedd y gofrestr tai yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau presennol. Sicrhau bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cwblhau ar geisiadau band 1 gan gynnwys geirdaon gan landlordiaid yn ôl y gofyn, gan ddefnyddio rhestr wirio sylfaenol.

Cydgysylltu ag asiantaethau / adrannau eraill i bennu cymhwysedd ymgeiswyr ar gyfer y gofrestr.

Cynnal a chadw cofrestr gyfredol, lân a diweddar yn unol â'r polisïau a sicrhau bod adolygiadau yn cael eu cynnal bob 6 mis.

Cynorthwyo'r Rheolwr Homefinder a mynychu cyfarfodydd panel gweithredol bob mis ar sail rota i sicrhau bod apeliadau yn cael eu cwblhau a'u bod yn derbyn ymateb prydlon.

Ymdrin ag ymholiadau gan Uwch Reolwyr, Aelodau Seneddol / Aelodau'r Cynulliad a Chynghorwyr Lleol.

Mynychu paneli a chyfarfodydd amrywiol megis Cyfarfodydd Aml-asiantaeth lle bydd angen mewnbwn gan y Tîm Cofrestr Tai.

Cynorthwyo'r Rheolwr Homefinder i gynhyrchu Adroddiadau o *Open Housing* yn ôl y gofyn.

## Cyfrifoldebau corfforaethol

Cefnogi Cartrefi Conwy yn weithredol wrth iddo geisio diwallu ei amcanion i ddarparu gwasanaeth rhagorol ac arloesol sydd wir yn canolbwyntio ar y cwsmer.

Cyfrannu at weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad tenantiaid yn ôl y gofyn.

Fel cynrychiolydd Cartrefi Conwy, hybu a chynnal agwedd a delwedd gadarnhaol bob amser.

Hyrwyddo gwerthoedd Cartrefi Conwy yn gadarnhaol a herio ffyrdd traddodiadol o weithio ac ymddygiad neu sylwadau anffafriol mewn modd adeiladol.

Sicrhau y gofynnir am adborth i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid a datblygu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o weithio.

Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog Cartrefi Conwy, polisïau a gweithdrefnau, safonau uniondeb sy'n ymwneud â statws elusennol y sefydliad a Rheoliad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu, adolygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau, yn benodol:

- Mentrau iechyd, diogelwch a lles
- Egwyddorion y gymdeithas ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cynlluniau rheoli risg
- Arferion rheoli perfformiad

Defnyddio technoleg a systemau TGCh yn effeithiol drwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithiol a chadw data yn ddiogel ac yn y modd cywir.

Gweithio ar y cyd mewn gweithgorau traws swyddogaethol yn ôl yr angen.

## Cyd-destuny y gwaith

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n bennaf yn y swyddfa, ond mae gofyn cael aelod o staff o fewn y tîm sy'n gallu teithio'n lleol o bryd i'w gilydd at ddibenion cynnal ymweliadau cartref fel rhan o'r broses i wirio ymgeiswyr.  Mae defnydd rheolaidd o dechnoleg a systemau TGCh yn un o ofynion y swydd.

## Ymreolaeth a gwneud penderfyniadau

Disgwylir i ddeiliad y swydd gadw at bolisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ac mae'r gwaith fel rheol yn cael ei lywio gan y cwsmer (nid ar eich cyflymder eich hun).

Dyma enghreifftiau o'r penderfyniadau y gall deiliad y swydd eu gwneud:

- Darparu neu gyfeirio cwsmeriaid at yr wybodaeth gywir

Dyma enghreifftiau o benderfyniadau sy'n cael eu cyfeirio:

- Unrhyw beth sy'n cynnwys gwariant
- Penderfyniadau polisi

Cytunir ar amcanion perfformiad gyda'r Rheolwr Homefinder ac mae perfformiad yn amodol ar adolygiad o dan y broses Adolygiadau Datblygu Perfformiad y cytunwyd arnynt.

| Cyfathrebu | |
|---|---|
| **Mewnol:** Cyswllt dyddiol dros y ffôn neu ar e-bost gyda staff Cartrefi Conwy i ofyn am gyngor a chanfod gwybodaeth gywir i denantiaid neu gwsmeriaid eraill. | **Allanol:** Cyfathrebu dyddiol gyda thenantiaid a'r cyhoedd i ateb ymholiadau a mynd ar drywydd ceisiadau am gyngor a gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir gan Gartrefi Conwy. |

## Meysydd cymhlethdod

Gall cyrraedd disgwyliadau cwsmeriaid achosi peth cymhlethdod i ddeiliad y swydd gan nad yw dyheadau wedi eu halinio ag adnoddau a gallu Cartrefi Conwy na gwasanaeth Datrysiadau Tai Conwy.

Pwysau achlysurol yn ystod cyfnodau prysur i ateb galwadau / delio ag ymholiadau o fewn amser rhesymol heb gael effaith negyddol ar lefelau gwasanaeth cwsmeriaid.

## Manylion am yr Unigolyn

| CYMWYSTERAU ACADEMAIDD / PROFFESIYNOL | |
|---|---|
| **Dymunol** | **Dull asesu:** |
| Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd (neu gyfwerth) neu brofiad perthnasol | Tystysgrif/ Ffurflen Gais |

| GWYBODAETH A PHROFIAD | |
|---|---|
| **Hanfodol:** | **Dull asesu:** |
| Gwybodaeth a phrofiad o arferion swyddfa (teleffoni a phrofiad gweinyddol) | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio wyneb yn wyneb gyda chwsmeriaid | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Dymunol:** | |
| Profiad o weithio mewn amgylchedd landlord a thenant | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio ym maes tai cymdeithasol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| SGILIAU | |
|---|---|
| **Hanfodol:** | Prawf Gallu |
| Microsoft Office; Word, Excel, Outlook (lefel defnyddiwr sylfaenol) | Prawf Gallu |
| Sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Menter a gallu i weithio'n annibynnol gan wneud penderfyniadau doeth | Prawf Gallu |
| Cywirdeb a sylw i fanylion wrth gofnodi data | Cyfweliad |
| Sgiliau rhyngbersonol, i ymdrin yn sensitif ac yn broffesiynol gyda thenantiaid sy'n cael anawsterau | Ffurflen gais |
| Cynllunio sylfaenol, blaenoriaethu a sgiliau trefnu | |
| **Dymunol:xc** | |
| Sgiliau Iaith Gymraeg | Ffurflen gais / Cyfweliad |

| GWERTHOEDD CRAIDD CARTREFI |
| --- |
| Ymroddedig i ansawdd |
| Parchus |
| Gwneud y peth iawn |

Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau.